Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ym Mhrif Siambr Dinefwr yn Adeiladau'r Cyngor, Y Cilgant, Llandeilo ar ddydd Mawrth 16eg Medi 2003 am 7.30pm.

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng. D. A. Jones (Maer), Cyng. G. Vaughan Jones (Dirprwy Faer), Cyng. C. Jenkins, Cyng. I. Gwyn, Cyng. R. Bellamy, Cyng. D. Williams.
Arall: Colette Paterson (Clerc y Dref), R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), Tri aelod o'r cyhoedd.
Croesawyd aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod gan y Cyng. D. A. Jones.

5842: Ymddiheuriadau: Cyng. S. Burge, Cyng. K. Day, Cyng. G. Price, Cyng. R. Davies.

5843: Materion yr Heddlu: Nid oedd yr heddlu'n gallu anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod.

5844: Cofnodion o gyfarfod blaenorol o'r Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn Siambr Drafod Dinefwr, Adeiladau'r Cyngor, Llandeilo.

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r Cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy, Eiliwyd gan y Cyng. Gwyn. Pawb yn gytun.

5845: Materion yn Codi:

Yr Archwiliad Treftadaeth. Mae'r Maer a'r Clerc wedi bod yn trafod gyda Emyr John o C.S.C. mewn perthynas â'r archwiliad. Mae'r awdurdod Grant wedi gofyn am ddyfynbrisiau gan dri chwmni i wneud y gwaith o gynnal Archwiliad Treftadaeth. Roedd y Maer, a'r Cyngor yn teimlo fod yna amgylchiadau arbennig fan hyn, o safbwynt gwaith a rôl Archaeoleg Cambria yn y dref, a'r ffaith eu bod yn cadw rhan sylweddol iawn o gofnod hanesyddol y Dref yn y SMR. Hwy fyddai'r cwmni mwyaf dymunol ac addas i wneud yr Archwiliad Treftadaeth.

Llythyr i'w anfon gyda'r cais am grant yn amlinellu'r rhesymau pam fod Cyngor y Dref o'r farn mai Archaeoleg Cambria yw'r ymgeisydd gorau ac mwyaf addas i ymgymryd â'r Archwiliad Treftadaeth. Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy, eiliwyd gan y Cyng. D. Williams.

Amcangyfrifwyd Cyfraniad gwreiddiol Cyngor y Dref at gost yr Archwiliad yn tua £800.00 (20% o gyfanswm y gost o £4800.00) Roedd yn rhaid newid y gost hon, gan y disgwylir i'r Archwiliad gostio £5700.00 felly fe allai Cyfraniad Cyngor y Dref fod cymaint â £1800.00 (£4000.00 yw'r uchafswm grant).

Mae'r Cyngor Tref yn derbyn y gost o arian cyfatebol o hyd at £1800.00 ar gyfer yr Archwiliad Treftadaeth. Cynigiwyd gan y Cyng. Gwyn, Eiliwyd gan y Cyng. Jenkins.

C n yn Baeddu. Mae hyn yn broblem barhaus, gan nad yw ychydig o bobl yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn glanhau ar ôl eu hanifeiliaid. Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins y dylid gwahardd pobl rhag cerdded eu c n ym Mharc Penlan. Roedd y Cyngor o'r farn fod yna rai camau eraill i'w cymryd yn gyntaf fel a benderfynnwyd mewn cofnodion blaenorol ac y byddai gwaharddiad yn fesur eithafol a fyddai ond yn symud y broblem i rywle arall. Cynigiodd y Cyng. Williams y dylai'r Cyngor Tref lunio poster gyda chais cwrtais i berchenogion c n. Fe ddylid codi proffil yr holl beth a hefyd cais i bobl ddynodi troseddwyr er mwyn rhoi eu henwau i Swyddog C n C.S.C.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y cynnig i wahardd c n o'r parc. 2 bleidlais o blaid a 3 pleidlais yn erbyn. Ni gefnogwyd y cynnig. Y Clerc a'r Maer i lunio poster i'w lamineiddio. Cyng. Vaughan Jones i ddarparu'r cyfieithiadau.

Y Gofeb:

Y Gofeb, cyfarfod i'w gynnal er mwyn derbyn cyflwyniad gan Robert ap Steffan ac i agor trafodaeth gyhoeddus yngl n â chofeb briodol i'r dref.

Rhybudd o Gynnig:

Rhybudd o gynnig i gynnwys y geiriau trydydd **a hefyd un.**

5846: Cofnodion y Pwyllgor Cyllid.

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Cyllid fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Awst 2003, a derbyniwyd yr argymhellion gan y Cyngor Llawn. Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy, eiliwyd gan y Cyng. Vaughan Jones

Materion yn codi. Mae'r Cyng. Vaughan Jones wedi edrych ar gostau cyfieithu a gweld bod y gyfradd arferol tua £80.00 y fil o eiriau ac felly o'r farn bod y gyfradd a gynigir yn un dda iawn. Cytunwyd i ddilyn argymhelliad y Pwyllgor Cyllid a'i adolygu ymhen tri mis.

Gan fod darparu cyfieithiad yn rhwymedigaeth ac yn ofynnol yn gyfreithiol, y Clerc i holi C.S.C. a'r Cynulliad Cenedlaethol a oes yna nawdd ychwanegol ar gael i dalu am y costau hyn. Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy, eiliwyd gan y Cyng. Gwyn. Pawb o blaid.

5847: Cofnodion Cynllunio a Dibenion Cyffredinol.

Derbyniwyd cofnodion Cynllunio a Dibenion Cyffredinol fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Awst 2003, a derbyniwyd yr argymhellion gan y Cyngor Llawn. Cynigiwyd gan y Cyng. Gwyn, Eiliwyd gan y Cyng. Jenkins.

5848: Swyddfa ar gyfer Clerc y Dref. Er gwaethaf yr ychydig oedi mae'r swyddfa ar gyfer Clerc y Dref yn mynd yn ei flaen. Roedd yn disgwyl dechrau ar ei gwaith yno ar y 1af Hydref 2003. Ystyriwyd y dyfynbris gan Peel Weld i osod bariau dros y ffenestri a'r drws. Roedd y Cyngor o'r farn efallai y byddai'n well o ran gwerth am arian i benderfynu faint yn rhatach y byddai i wneud y ffenestri a'r drws yn ddiogel trwy ddefnyddio grid metel.

Y Swyddog Technegol i gydweithio gyda'r Cyng. Williams mewn perthynas â gridiau metel sbâr a hefyd dod o hyd i ddyfynbrisiau oddi wrth gyflenwyr eraill.

5849: Y Goleuadau Nadolig. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mr Bannister yn nodi fod C.S.C. yn ymgymryd â'r gwaith ynghylch Goleuadau Nadolig ac y byddai'n anfonebu'n unol â hynny. Dywedodd y Cyng. Jenkins ei fod ef o dan yr argraff y byddai C.S.C. yn ymgymryd â'r gwaith ynghylch y Goleuadau Nadolig a hynny heb gostau ychwanegol. Mae angen i'r Cyngor Tref wybod faint fydd y Cyngor Sir yn codi arnynt i wneud y gwaith hwn ar eu rhan.

Clerc y Dref i ysgrifennu llythyr yn nodi fod gan y Cyngor Tref swm o £4000.00 yn eu cyllideb ar gyfer goleuadau Nadolig, a hefyd gofyn i'r Cyngor Sir am restr o'r hyn y gallant ei wneud o ran gosod y goleuadau a gwella ar yr hyn a wnaed cynt.

Awgrymodd y Cyng. Vaughan Jones anfon llythyr at bob un o'r masnachwyr yn gofyn am eu cefnogaeth ar gyfer y goleuadau eleni. Mae yna gytundeb cyffredinol fod angen perthynas waith mwy positif rhwng y Masnachwyr, y Cyngor Tref a'r bobl sy'n gosod y goleuadau.

Y Clerc a'r Maer i ddrafftio llythyr i'w gyflwyno i Fasnachwyr unigol yn y dref gyda chais am gymorth gyda'r goleuadau eleni, ac yn arbennig cais iddynt oleuo eu Coed Nadolig.

Cytunwyd i barhau gyda'r Gystadleuaeth Ffenest Orau fel a wnaed y llynedd.

Y Clerc i ddrafftio llythyr yn rhoi manylion y Gystadleuaeth.

5850: Gwefan y Cyngor Tref. Mae'r Cyng. Bellamy wedi anfon manylion allan ar gyfer y wefan fel a benderfynwyd cynt. Mae pob aelod wedi derbyn copïau o'r tendrau a dderbyniwyd o ganlyniad i hynny. Cymeradwywyd y Cyng. Bellamy am yr holl waith y mae wedi ei wneud. Roedd y Cyng. Bellamy wedi gofyn am dendrau oddi wrth 10 cwmni ac wedi derbyn ceisiadau gan 6 chwmni, darperir y manylion ar gyfer pob tendr. Edrychodd y Cyngor ar bob tendr unigol a'u trafod yn eu tro.

Cytunwyd mai'r tendr mwyaf trawiadol a'r un oedd yn gweddu orau i anghenion y Cyngor oedd yr un a dderbyniwyd gan Orchard Web o Fanordeilo. Roedd y Cyngor yn unfrydol y dylid cynnig y cytundeb i Orchard Web er mwyn sefydlu a rhedeg y Wefan ar gyfer Cyngor Tref Llandeilo Fawr.

Mae angen casglu'r wybodaeth ynghyd nawr ar gyfer y wefan. Awgrymodd y Cyng. Gwyn y dylid sefydlu gweithgor.

Bydd y gweithgor a fydd yn cynnwys y Cyng. Bellamy, Cyng Vaughan Jones a'r Cyng. D. Jones yn cwrdd i ddynodi a dod o hyd i wybodaeth berthnasol ar gyfer y wefan.

5851: Adroddiadau . Mae'r Swyddog Technegol wedi cwrdd â'r contractwyr sy'n peintio Neuadd y Sir a wnaethant hwy nodi bod angen trwsio ffrâm y ffenest fawr uchaf. Awgrymodd y Swyddog Technegol y dylai gwrdd â Gareth Peters a'i gytundebu i wneud y gwaith.

Cytunodd y Cyngor i dalu hyd at £500.00 i drwsio'r ffenest er mwyn gallu cwblhau'r gwaith o beintio Neuadd y Sir. Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. Gwyn, pawb o blaid.

Mae'r Swyddog Technegol hefyd yn trafod gyda Gwasanaethau Amgylcheddol ALS mewn perthynas ag Archwiliad Asbestos ar yr adeilad.
Mae 2 fainc wedi'u gosod yn y man a gytunwyd arnynt, ac mae gan y Cyngor 2 fainc arall.
Mae'r manylion ar gyfer y rheiliau treftadaeth yn mynd yn ei flaen o hyd. Mae'r penderfyniad ynghylch y math o reiliau wedi ei wneud ac mae dod o hyd i ddyfynbrisiau ar y gweill, gan dri chwmni.

Cytunwyd i osod gweddill y meinciau wrth y fynedfa i Barc Penlan.

Nodwyd gan y Cyng. Vaughan Jones fod y fainc ger gae pêl-droed Parc Le Conquet wedi torri. C.S.C. sy'n gyfrifol am y meinciau hyn.

Y Clerc i ysgrifennu llythyr at Mr Humphries C. S. C. yn tynnu sylw at y fainc sydd wedi torri.

5852: Arddangosfa Tân Gwyllt. Mae'n fwriad gan y Cyngor i gynnal arddangosfa ar y 5ed Tachwedd 2003. Wnaeth y Cynghorwyr Price, Vaughan Jones a Davies fynychu diwrnod hyfforddiant ym Mhenybont, diwrnod a gynhaliwyd gan gwmni Tân Gwyllt i roi cyfarwyddyd iddynt yngl n â diogelwch. Mae'r Cyng. Price wedi cael caniatâd i ddefnyddio'r safle a'r cam nesaf yw archebu Tân Gwyllt a gwneud yn si r eu bod yn cael eu cadw mewn lle diogel.

Clerc i gysylltu â Zurich mewn perthynas â'r gost ychwanegol o yswirio'r digwyddiad.

5853: Wnaeth y Cyng. Williams fynychu cyfarfod o Bwyllgor yr yl ac awgrymodd bod yr yl o dan fygythiad o ganlyniad i'r gostyngiad mewn Arian Loteri. Er eu bod wedi bod yn ddigon ffodus eleni i ddod o hyd i nawdd mae'r swm o arian sydd ar gael o HLF yn lleihau.

Yr angen i ail-werthuso cyfraniadau'r Cyngor Tref i wyliau'r Dref.

5854: Adroddiad y Maer. Wnaeth y Maer gynnal cyfarfodydd yn rheolaidd gyda Chlerc y Dref. Y maer i gwrdd â Network Rail a'r Cynghorydd Sir I Jones i drafod y Prosiect yn Ffordd yr Orsaf. Mae'r Maer a Chlerc y Dref wedi cwrdd ag Emyr John i ddechrau ar y broses grant ar gyfer yr Archwiliad Treftadaeth. Roedd y Maer o'r farn ei bod braidd yn anffodus fod y Gymdeithas Gymunedol wedi cynnal ei CCB yng nghanol yr yl Cerdd a Blodau, heb ryw lawer o rybudd a phan nad oedd pobl yn gallu mynychu. Roedd o'r farn ei bod yn bwysig fod pob aelod o'r Cyngor yn derbyn copi o Gyfansoddiad y Gymdeithas Gymunedol gan ei fod o'r farn nad oedd yna gworwm yn y cyfarfod a'i fod yn anghyfansoddiadol. Amcangyfrifir y gost o osod rheiliau newydd a'r rheini'n rhai treftadaeth ar y Cilgant yn rhyw £25000.00 ond disgwylir y bydd y Cyngor yn derbyn grantiau gan y Cyngor Sir a chyrff eraill. Nodwyd gan y Cyng. Gwyn ei fod wedi archebu'r pwysau arferol o gennin pedr i'w plannu yn y dref.

5855: Y Gerddi yn y Cilgant. Mae'r gwaith o werthu'r 'Alotment' gan y Cyngor Sir yn mynd yn ei flaen. Roedd Mr Beynon o'r farn fod ei ardd ef werth ychydig yn fwy na alotment y Cyngor gan fod yna fynedfa iddo o'r Cilgant.

Y Cyngor i gytuno cynnig y swm o £3000.00 i Mr Beynon i brynu ei ardd. Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Vaughan Jones gyda phawb o blaid.

Cododd y Cyng. Bellamy y mater o'r Ardd yr oedd y Cyngor yn ei brynu. Awgrymodd fod Mr D. Rice o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn barod i wneud Archwiliad Amgylcheddol o'r Gerddi, er mwyn gweld beth ddylid ei glirio a'r hyn ddylid ei gadw. Awgrymwyd hefyd, gan ei fod yn brosiect cymunedol dylid cynnal Cystadleuaeth Gyhoeddus i ddylunio gardd addas i'w sefydlu ar y safle. Argymhellwyd ymhellach at hyn y dylid defnyddio ac ystyried arbenigedd y Clwb Garddio Lleol wrth gyflawni'r prosiect.

5856: Gohebiaeth. Darllenodd y Clerc lythyr wnaeth y Cyngor ei dderbyn oddi wrth Mr J. M. B. Lewis. Roedd y llythyr yn cwyno am y meinciau picnic y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar y Cilgant gan ddweud bod y safle yn cael ei ddefnyddio gan bobl ifanc y dref yn ymddwyn yn wrth-gymdeithasol. Mae Mr Lewis yn byw ar y Cilgant a nododd bod ei fywyd yn gallu bod yn annymunol o ganlyniad i'r gweithgareddau sy'n digwydd o amgylch y meinciau hyn. Gofynnodd y Maer i'r Cyngor a oedd yna unrhyw gwynion

eraill wedi'u derbyn yngl n â'r meinciau. Nid oedd rhagor wedi'u derbyn gan drigolion eraill sy'n byw ar y Cilgant neu Stryd yr Eglwys/Teras yr Abaty. Dywedodd y Maer ei fod ef wedi clywed pethau hollol i'r gwrthwyneb am y meinciau gan ddweud fod llawer o bobl sy'n byw a gweithio yn Llandeilo yn mwynhau eistedd ac edrych ar y golygfeydd tra'n bwyta eu cinio yma. Roedd cynnig y Cyngor Tref i brynu'r ardd ganol wedi'i wrthod gan y perchennog, nai i Mr Lewis gan nad oedd am upsetio ei fodryb.
Wnaeth y Cyngor drafod y defnydd o oleuadau diogelwch ychwanegol o amgylch y cabanau er mwyn atal pobl rhag sefyll o amgylch y lle. Hefyd soniwyd am y defnydd o C.C.C.T.V i adnabod/ymdrin ag unrhyw ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Daeth y Cyfarfod i Ben am 9.20p.m.